Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Adroddiad ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig

Ebrill 2024

## 1. Cyflwyniad

**1.** Ar 24 Tachwedd 2023, gosododd y Gweinidog Newid Hinsawdd ('y Gweinidog') Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig ('y Memorandwm') gerbron y Senedd.

**2.** Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (y Pwyllgor) a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gyda dyddiad terfynol o 1 Mawrth 2024 i gyflwyno adroddiad.

**3.** Ar 13 Chwefror 2024, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig ('y Memorandwm Atodol') gerbron y Senedd.

**4.** Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Atodol at y Pwyllgor a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyda dyddiad terfynol o 19 Ebrill 2024 i gyflwyno adroddiad.

### Ein dull ni

**5.** Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm a'r Memorandwm Atodol yn ei gyfarfodydd ar 31 Ionawr a 21 Mawrth 2024.

# 2. Y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig

**6.** Cyflwynwyd y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig (y Bil) yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 8 Tachwedd 2023.

**7.** Yn ôl y Nodiadau Esboniadol, mae'r Bil yn gweithredu argymhellion yr adolygiad pedair plynedd o reoleiddio ar gyfer cerbydau awtomeiddiedig a gynhaliwyd ar y cyd gan Gomisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr a Chomisiwn y Gyfraith yn yr Alban (Comisiynau'r Gyfraith). Ei fwriad yw gosod y fframwaith cyfreithiol ar gyfer defnyddio'n ddiogel, gerbydau sy'n gallu gyrru eu hunain ym Mhrydain Fawr.

## Amcanion polisi

**8.** Amcanion polisi'r Bil, fel y'u hamlinellir ym mharagraff 5 o'r Memorandwm fel a ganlyn:

> *"by 2025, the UK will begin to see deployments of self-driving vehicles, improving ways in which people and goods are moved around the nation and creating an early commercial market for the technologies. This market will be enabled by a comprehensive regulatory, legislative and safety framework, served by a strong British supply chain and skills base, and used confidently by businesses and the public alike."*

**9.** Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth sy'n rheoleiddio'r defnydd o gerbydau awtomeiddiedig, fel y nodir ym mharagraff 8 o'r Memorandwm. Yn fras, mae'n gwneud hynny drwy:

- Greu cyfundrefn awdurdodi sy'n rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol awdurdodi cerbydau awtomeiddiedig penodol neu gategorïau o gerbydau awtomeiddiedig i'w defnyddio ar ffyrdd;
- Gwneud darpariaeth ynghylch "cyrff a reoleiddir", a fydd yn gyfrifol am swyddogaethau awtomeiddiedig mewn cerbydau a gweithredu cerbydau awtomeiddiedig sydd wedi cael eu hawdurdodi;
- Gwneud darpariaeth helaeth ar gyfer gorfodi mewn perthynas â cherbydau awtomeiddiedig, gan gynnwys mewn perthynas â chyrff a reoleiddir;

- Darparu ynghylch system drwyddedu ar gyfer cerbydau awtomeiddiedig sy'n cludo teithwyr.

# 3. Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

## Darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

**10.** Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae angen cydsyniad ar gyfer cymalau 40, 82 i 85, 87 i 90, 97 o’r Bil ac Atodlen 6 iddo. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion ym mharagraffau 10 i 21 o’r Memorandwm.

**11.** Nid yw Llywodraeth y DU yn rhannu barn Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad ar gyfer cymal 97.

## Gwelliannau a gyflwynwyd yn ystod cyfnod Tŷ’r Arglwyddi yn gwneud darpariaeth lle mae angen cydsyniad ar eu cyfer

**12.** Mae Paragraff 13 o’r Memorandwm Atodol yn nodi gwelliannau a gyflwynwyd yn Nhŷ’r Arglwyddi lle mae angen cydsyniad ar ey cyfer Mae'r gwelliannau i gymal 88(5) a chymal 97.

## Materion sydd heb eu datrys

### Cymal 40 (Pŵer i fynnu adroddiadau gan yr heddlu ac awdurdodau lleol)

**13.** Mae cymal 40 yn cefnogi'r ddyletswydd yng nghymal 39 i ymchwilio i ddigwyddiadau’n ymwneud â cherbydau awtomeiddiedig a allai arwain at ganlyniadau rheoleiddiol. Mae’n galluogi’r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau lle gallai fod angen adroddiadau gan brif swyddog heddlu a’r awdurdodau eraill a nodir yng nghymal 40(3) am ddigwyddiadau perthnasol sy’n digwydd yn ardal eu heddlu neu eu hawdurdod heddlu.

**14.** Drwy reoliadau a wneir o dan gymal 40, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ofyn am adroddiadau gan brif swyddog heddlu ac awdurdodau penodol sy’n cynnwys Gweinidogion yr Alban ac awdurdodau lleol yng Nghymru, ond nid Gweinidogion Cymru.

**15.** Mae’r Memorandwm yn awgrymu y gallai hepgor Gweinidogion Cymru fod yn gamgymeriad ac mae Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU ar y mater hwn.

### Cymal 93 (Darparu gwybodaeth am fesurau rheoleiddio traffig)

**16.** Mae cymal 93 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod rheoleiddio traffig ddarparu gwybodaeth ragnodedig am fesur perthnasol yn Lloegr i reoleiddio traffig. Ei fwriad yw hwyluso argaeledd y wybodaeth ddigidol y gallai cerbydau awtomeiddiedig ei defnyddio, neu, yn wir, gerbydau eraill sydd â swyddogaethau cymorth gyrwyr electronig, i gydymffurfio â'r rheolau a nodir mewn deddfwriaeth fel Gorchmynion Rheoleiddio Traffig.

**17.** Mae’r Memorandwm yn dweud bod Llywodraeth Cymru yn archwilio a ellid diwygio cymal 93 i roi pŵer cyfatebol i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.

**18.** Yn ôl Llywodraeth Cymru, “O ystyried y cysylltiadau rhwng systemau trafnidiaeth Cymru a Lloegr, credwn y byddai'n fanteisiol i wybodaeth o'r fath fod ar gael ar yr un pryd, a byddai pwerau i Weinidogion Cymru yng nghymal 93 yn ein galluogi i weithio'n effeithiol gyda Llywodraeth y DU yn hyn o beth."

## Safbwynt presennol Llywodraeth Cymru ynghylch cydsyniad

**19.** Mae paragraff 23 o’r Memorandwm yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil:

- Mae cynnig deddfwriaethol Llywodraeth y DU yn briodol ar gyfer amgylchiadau Cymru, gan fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i hwyluso defnyddio cerbydau sy'n gallu gyrru eu hunain mewn modd diogel ac effeithlon.
- Mae natur gydgysylltiedig y system drafnidiaeth yng Nghymru a Lloegr, a'r cyfuniad o faterion a gedwir yn ôl â'r materion datganoledig dan sylw, yn golygu mai'r opsiwn mwyaf effeithiol a phriodol yw i ddarpariaeth i'r ddau gael ei datblygu ar yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol. Am y rhesymau hyn, mae'n annhebygol y byddai gwneud darpariaeth drwy'r Bil Tacsis a/neu'r Bil Bysiau y bwriedir eu cyflwyno i'r Senedd yn foddhaol.

- Fel y nodwyd uchod, mae technoleg yn datblygu'n gyflym yn y maes hwn ac mae'n bwysig bod y fframwaith deddfwriaethol yn parhau i fod yn addas ac yn cyd-fynd yn llawn ledled y DU.

**20.** Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad "ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau yn y Memorandwm, ac eithrio cymal 40 fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn y Bil hwn ar gyfer y DU".

**21.** Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i roi diweddariad pellach i'r Senedd ar y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â chymalau 40 a 93 maes o law.

**22.** Mae'r Memorandwm Atodol yn ailddatgan y safbwynt uchod.

## Casgliadau'r Pwyllgor

Rydym yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud y darpariaeth i Gymru yn y Bil. Yn yr achos hwn, ni wnaethom ganfod unrhyw reswm i wrthwynebu i'r Senedd gydsynio i gymalau 82 i 85, 87 i 90, 97 o'r Bil ac Atodlen 6 iddo.

Mewn perthynas â chymal 40, rydym yn disgwyl i'r Gweinidog roi diweddariad ar drafodaethau â Llywodraeth y DU cyn cyflwyno'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Memorandwm.